**Cleifion mewnol ag anableddau dysgu mewn ysbytai arbenigol**
(Data Ebrill 2026)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth gryno o'r Cyfrifiad Chwarterol am Gleifion Mewnol ag Anableddau Dysgu mewn lleoliadau gofal arbenigol (QLDSIC). Mae'r cyfrifiad yn casglu data ar breswylwyr Cymru sydd ag anableddau dysgu ac sy'n cael eu derbyn fel cleifion mewnol ysbyty yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd yn yr ysbyty yn wirfoddol, pobl sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), a phobl sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r data yn cynnwys cleifion sy'n cael eu trin mewn ysbytai anabledd dysgu arbenigol ac ysbytai iechyd meddwl arbenigol.

Mae'r QLDSIC yn casglu rhywfaint o wybodaeth sy'n debyg i'r hyn a adroddir yn yr ystadegau swyddogol ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl yng Nghymru, sy'n deillio o Gyfrifiad Seiciatrig blynyddol Cymru. Mae yna wahaniaethau pwysig rhwng y ffynonellau hyn. Mae'r gwahaniaethau hyn, a'r canllawiau ar ddefnyddio'r ddwy ffynhonnell yn briodol, wedi'u hamlinellu yn yr adran ar *ffynonellau data eraill a chanllawiau i ddefnyddwyr* isod.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cefnogi ymrwymiadau hirsefydlog i wella cwmpas ac ansawdd data sy'n ymwneud â phobl ag anableddau dysgu ac mae'n mynd i'r afael â galwadau am well data, gan gynnwys gan ymgyrch *Cartrefi Nid Ysbytai yng Nghymru* o'r ymgyrch *Bywydau Wedi'u Dwyn.* Mae'n cyflawni argymhelliad penodol o adroddiad *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu, O Ysbytai i Gartrefi*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r data diweddaraf ar gleifion mewnol a gasglwyd drwy'r cyfrifiad a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2026. Dyma'r pedwerydd cyfrifiad ar ddeg a'r cyntaf lle cyhoeddwyd data ar ei gyfer. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu cyhoeddi fel gwybodaeth reoli'r GIG gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ar ran Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella'r GIG. Nid ydynt yn ystadegau swyddogol achrededig a dylid eu dehongli ochr yn ochr â'r fethodoleg a'r wybodaeth ansawdd data a nodir yn yr adroddiad hwn.

## Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym

Mae'r cyfrifiad yn dangos bod nifer fach ond sylweddol o breswylwyr Cymru sydd ag anableddau dysgu yn derbyn gofal cleifion mewnol mewn lleoliadau arbenigol, gan gynnwys rhai pobl mewn lleoliadau y tu allan i Gymru a rhai pobl y mae'r broses o'u rhyddhau yn cael ei gohirio er eu bod yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty. Dylid

defnyddio'r ffigurau er mwyn deall sefyllfa bresennol cleifion mewnol a chynllunio gwasanaethau cymorth.

**Ffeithiau Allweddol ar 8 Ebrill 2026**

**Cleifion mewn ysbytai arbenigol**

- Roedd 129 o gleifion mewnol o Gymru ag anabledd dysgu mewn ysbytai anableddau dysgu neu iechyd meddwl arbenigol yng Nghymru a Lloegr.

**Derbyn a rhyddhau cleifion**

- Bu o leiaf 13 o dderbyniadau newydd ac fe gafodd o leiaf deg o gleifion eu rhyddhau ers y cyfrifiad blaenorol ym mis Ionawr. Nid yw'n bosibl gwybod a gafodd rhagor o gleifion eu derbyn a'u rhyddhau rhwng dyddiadau cyfnod y cyfrifiad.

**Mathau o ysbytai**

- Roedd 121 o gleifion (94%) mewn ysbyty sy'n cael ei ddisgrifio fel ysbyty anabledd dysgu. Roedd wyth claf (6%) mewn ysbyty iechyd meddwl.
- Roedd 32 o gleifion (25%) mewn uned asesu a thrin (ATU).
- Roedd 44 o gleifion (34%) yn derbyn eu gofal mewn ysbyty gofal parhaus.
- Roedd 18 o gleifion (14%) yn derbyn eu gofal mewn ysbyty adsefydlu dan glo.
- Roedd 30 o gleifion (23%) mewn ysbyty diogel.

Nid yw'r nifer o gleifion yn y categorïau lleoliadau ysbyty yn dod i gyfanswm nifer y cleifion mewnol oherwydd gall rhai cofnodion fod y tu allan i'r categorïau grŵp hyn a chaiff niferoedd bach eu hatal lle bo angen er mwyn lleihau'r risg y gall pobl adnabod unigolion.

**Lleoliadau ysbyty**

- Roedd 111 o gleifion (86%) mewn ysbyty yng Nghymru, ac roedd 18 o gleifion (14%) yn Lloegr.
- Roedd 83 o gleifion (64%) mewn darpariaeth y GIG, tra bod 46 o gleifion (36%) mewn darpariaeth y tu allan i'r GIG. Ymhlith y cleifion yng Nghymru, roedd 29 mewn ysbytai nad ydynt yn rhai'r GIG. Mae ysbytai nad ydynt yn rhan o'r GIG fel arfer yn ddarparwyr annibynnol neu breifat a gomisiynir gan y GIG.

## Amser yn yr ysbyty a rhyddhau gohiriedig

Y cyfnod canolrifol o amser yn yr ysbyty o’r dyddiad mynd i mewn am y tro cyntaf, gan gynnwys unrhyw symudiadau rhwng lleoliadau ysbyty, oedd 3.6 mlynedd. Disgrifir hyn fel cyfnod yr unigolyn.

Yr amser canolrifol a dreuliwyd yn yr ysbyty cyfredol oedd 1.8 mlynedd. Disgrifir hyn fel cyfnod yr ysbyty.

Hyd canolrifol yr arhosiad ar gyfer pob math o ysbyty oedd:

- Uned asesu a thrin (ATU): 0.5 mlynedd.
- Ysbyty gofal parhaus: 3.8 mlynedd.
- Ysbyty adsefydlu dan glo: 1.5 mlynedd.
- Ysbyty diogel: 2.2 mlynedd.

## Oedi yn achos Llwybrau Gofal (POCD)

- Nodwyd bod 22 o gleifion yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty ond eu bod yn profi oedi wrth gael eu rhyddhau.
- Roedd naw claf wedi profi gohirio o ran cael eu rhyddhau o fwy na 6 mis, gan gynnwys saith claf oedd wedi profi gohirio am dros 12 mis.
- Roedd gweddill yr achosion o ohirio o ran rhyddhau yn gyfnodau byrrach o ohirio. Caiff niferoedd bach eu hatal lle bo angen er mwyn lleihau'r risg y gellid adnabod unigolion.

## Methodoleg ac ansawdd data

Mae'r Cyfrifiad Chwarterol am Gleifion Mewnol ag Anableddau Dysgu mewn Lleoliadau Arbenigol (QLDSIC) wedi'i gynnal ers mis Chwefror 2022 ac mae'n cael ei gwblhau'n chwarterol gan saith bwrdd iechyd Cymru. Mae'n cwmpasu preswylwyr yng Nghymru sydd ag anabledd dysgu ac sydd mewn darpariaeth anabledd dysgu arbenigol neu ddarpariaeth iechyd meddwl i gleifion mewnol, gan gynnwys lleoliadau yng Nghymru a Lloegr.

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, cesglir data ar gyfer y cyfrifiad drwy'r set ddata genedlaethol Anableddau Dysgu (Gwasanaethau Arbenigol i Gleifion Mewnol), sy'n orfodol yn sgil Hysbysiad Newid Safonau Data (DSCN 2026 / 06). Bydd y set ddata yn cael ei chyflwyno i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) gan y saith bwrdd iechyd yng Nghymru ac mae'n cynnwys data ar lefel cleifion sy'n ymwneud ag unigolion sy'n derbyn gwasanaethau arbenigol i gleifion mewnol.

Roedd data hyd at ac yn cynnwys Ebrill 2026 yn deillio o ganlyniadau crynswth y byrddau iechyd. Bydd data o fis Gorffennaf 2026 ymlaen yn deillio o ddata ar lefel cleifion a gyflwynir drwy'r set ddata Anableddau Dysgu (Gwasanaethau Arbenigol i Gleifion Mewnol).

Bydd data o'r set ddata genedlaethol yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu mesurau crynswth chwarterol at ddibenion cyhoeddi a rheoli gwybodaeth. Mae'r ffigurau cyhoeddedig yn deillio o gofnodion lefel cleifion a gyflwynir gan fyrddau iechyd ac maent yn cael eu prosesu gan DHCW yn unol â'r safon wybodaeth genedlaethol.

Bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi fel gwybodaeth reoli. Mae gwybodaeth reoli yn cael ei chasglu a'i defnyddio at ddibenion gweithredol, cynllunio neu fonitro ac nid yw o reidrwydd wedi bod yn destun y broses sicrwydd lawn sy'n ofynnol ar gyfer ystadegau swyddogol.

Mae egwyddorion dibynadwyedd, ansawdd a gwerth o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau wedi'u cymhwyso lle bo hynny'n briodol, ond nid yw'r ffigurau wedi'u hasesu'n annibynnol fel ystadegau swyddogol achrededig. Mae'r Cod wedi'i gymhwyso'n wirfoddol yn y ffyrdd canlynol:

- Mae dadansoddiadau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion a nodir ar gyfer defnyddwyr ac fe'u cyflwynir mewn ffordd wrthrychol a diduedd
- Bydd y cyhoeddiad yn cael ei gyflwyno ymlaen llaw ar dudalen we amserlen gyhoeddi DHCW
- Mae data yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio a'i rannu yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol ac egwyddorion moesegol
- Mae safonau a diffiniadau data yn cael eu pennu gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru

Mae'r data yn cynnwys pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am gyflwyno data yn unol â'r fanyleb genedlaethol ar gyfer y set ddata ac am sicrhau bod cofnodion yn gywir, yn gyflawn ac yn cael eu cyflwyno o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

Bydd data a gyflwynir yn destun amrywiaeth o wiriadau dilysu a sicrhau ansawdd o fewn DHCW. Mae'r gwiriadau hyn yn asesu cyflawnrwydd, dilysrwydd, cysondeb a chydymffurfiaeth â'r safon genedlaethol. Mae DHCW yn cydweithio â sefydliadau sy'n cyflwyno er mwyn ymchwilio a datrys materion a nodwyd sy'n ymwneud ag ansawdd data lle bo hynny'n briodol. Bydd adolygiad ychwanegol o'r allbynnau crynswth yn cael ei gynnal gan Perfformiad a Gwella'r GIG er mwyn nodi tueddiadau annisgwyl, anghysondebau neu newidiadau sylweddol dros amser.

Yn y dyfodol, efallai y bydd y ffigurau hyn yn cael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau er mwyn pennu a ellir eu dynodi fel ystadegau swyddogol.

Er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolion, caiff cyfrifiadau o lai na phump eu hatal, ac mae'r canlyniadau'n cael eu hadrodd ar lefel Cymru gyfan yn unig.

**Ffynonellau data eraill a chanllawiau i ddefnyddwyr**

Mae cyfres ystadegau swyddogol ar wahân, *Cleifion mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl yng Nghymru gydag anabledd dysgu*, yn cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n deillio o Gyfrifiad Seiciatrig blynyddol Cymru. Mae ar gael yma:

Cleifion mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl yng Nghymru gydag anabledd dysgu | Ystadegau Cymru

Mae'n darparu data o 2009 ymlaen ac mae ar gael yn ôl bwrdd iechyd lleol, grŵp oedran a rhyw.

Mae'r ddwy ffynhonnell yn debyg yn gysyniadol ac yn cynhyrchu ffigurau sy'n cyd-fynd yn agos pan fyddant wedi'u cyfyngu i unedau iechyd meddwl pwrpasol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r QLDSIC wedi'i gynllunio'n benodol i gasglu amrywiaeth ehangach o wybodaeth ar draws amrywiaeth ehangach o leoliadau ac mae'n cael ei gasglu bob chwarter yn hytrach nag yn flynyddol. O ganlyniad, nid yw'r cyfansymiau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gymharol yn uniongyrchol â'r rhai a ddaw o'r gyfres ystadegau swyddogol, sydd â chwmpas mwy cyfyngedig.

Dylai defnyddwyr barhau i ddefnyddio'r gyfres ystadegau swyddogol i fonitro tueddiadau yn nifer y cleifion ag anableddau dysgu sydd mewn cyfleusterau iechyd meddwl pwrpasol yng Nghymru. Dylid defnyddio'r data QLDSIC er mwyn deall y darlun ehangach ar gyfer preswylwyr Cymru sydd ag anableddau dysgu ac sy'n derbyn gofal cleifion mewnol ar draws pob math o leoliadau arbenigol, gan gynnwys y rhai y tu allan i Gymru.

Bydd y ffigurau rheoli gwybodaeth hyn yn cael eu hadolygu’n barhaus. Yn y tymor hwy, gellir eu hasesu yn erbyn y safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau er mwyn penderfynu a ellir eu dynodi fel ystadegau swyddogol.

**Atodiad**

**Ffigur 1. Data o'r Cyfrifiad Chwarterol am Gleifion Mewnol ag Anableddau Dysgu mewn Lleoliadau Gofal Arbenigol, 8 Ebrill 2026**

| Set ddata | Archwiliad 8 Ebrill 2026 |
|---|---|
| Cyfanswm Nifer y Cleifion Mewnol | 129 |
| Cleifion yng Nghymru | 111 |
| Cleifion yn Lloegr | 18 |
| Cleifion mewn Darpariaeth sy'n rhan o'r GIG | 83 |
| Cleifion mewn darpariaeth y tu allan i'r GIG | 46 |
| Cleifion mewn gwasanaeth Anabledd Dysgu | 121 |
| Cleifion mewn Gwasanaeth Iechyd Meddwl | 8 |
| Cleifion mewn uned asesu a thrin (ATU) | 32 |
| Cleifion mewn Ysbyty Gofal Parhaus | 44 |
| Cleifion mewn Darpariaeth adsefydlu dan glo | 18 |
| Cleifion mewn Gwasanaethau Diogel | 30 |
| Hyd Arhosiad Canolrifol yn yr Ysbyty – Cyfanswm | 1.8 mlynedd |
| Hyd Arhosiad Canolrifol – ATU | 0.5 mlynedd |
| Hyd Arhosiad Canolrifol – Gofal Parhaus | 3.8 mlynedd |
| Hyd Arhosiad Canolrifol – Darpariaeth Adsefydlu Dan Glo | 1.5 mlynedd |
| Hyd Arhosiad Canolrifol – Gwasanaeth Diogel | 2.2 mlynedd |
| Nifer yr achosion o ohirio wrth ryddhau o'r lleoliad gofal/ POCD | 22 |
| Nifer yr achosion o ohirio am dros 6 mis wrth ryddhau o'r lleoliad gofal | 9 |

**Cysylltu**

Ar gyfer ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, e-bostiwch Llywodraeth Cymru
LearningDisabilityPolicy@llyw.cymru

## Geirfa

Mae'r eirfa hon yn esbonio termau allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad. Mae rhai termau yn disgrifio statws cyfreithiol, lleoliadau ysbyty neu gysyniadau ystadegol ac maen nhw wedi'u cynnwys i gefnogi'r gwaith o ddehongli'r data mewn ffordd gyson.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Uned Asesu a Thrin (ATU)** | Gwasanaeth arbenigol i gleifion mewnol sy'n darparu asesiad, triniaeth a chefnogaeth tymor byr i bobl ag anableddau dysgu na ellir diwallu eu hanghenion yn ddiogel yn y gymuned ar hyn o bryd. |
| **Ysbyty gofal parhaus** | Lleoliad ysbyty sy'n darparu gofal arbenigol parhaus i gleifion mewnol i bobl sydd ag anghenion tymor hwy o ran cymorth neu driniaeth. |
| **Rhyddhau gohiriedig / Oedi yn achos Llwybrau Gofal (POCD)** | Sefyllfa lle mae person yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty, ond mae'r broses o ryddhau wedi'i gohirio oherwydd nad yw'r cymorth cymunedol, y llety, y pecyn na'r llwybr gofal cywir ar waith eto. |
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)** | Mesurau diogelu cyfreithiol a ddefnyddir pan fydd person sydd heb alluedd yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn cartref gofal neu leoliad ysbyty, er mwyn sicrhau bod hyn yn gyfreithlon ac er ei fudd gorau. |
| **Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)** | Y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am wasanaethau digidol, data a systemau gwybodaeth sy'n cefnogi iechyd a gofal yng Nghymru. |
| **Cyfnod yr ysbyty** | Yr amser y mae person wedi'i dreulio yn ei leoliad ysbyty neu ei amgylchedd presennol. |
| **Anabledd Dysgu** | Cyflwr gydol oes sy'n effeithio ar weithrediad deallusol a sgiliau ymaddasol person, sy'n golygu y gallai fod angen cymorth ychwanegol arno gyda dysgu, cyfathrebu a bywyd bob dydd. |

| | |
|---|---|
| **Ysbyty adsefydlu dan glo** | Lleoliad ysbyty sy'n darparu cymorth adsefydlu a therapiwtig mewn amgylchedd diogel neu dan glo, fel arfer ar gyfer pobl sydd angen gofal strwythuredig cyn symud i leoliad llai cyfyngol. |
| **Gwybodaeth reoli** | Data a gesglir ac a ddefnyddir at ddibenion gweithredol, cynllunio neu fonitro. Nid yw o reidrwydd wedi bod yn destun y broses sicrwydd lawn sy'n ofynnol ar gyfer ystadegau swyddogol. |
| **Deddf Iechyd Meddwl** | Deddfwriaeth sy'n caniatáu i bobl gael eu cadw yn yr ysbyty er mwyn asesu neu drin anhwylder meddwl pan fodlonir meini prawf cyfreithiol penodol. |
| **Darpariaeth y GIG** | Gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y GIG. |
| **Darpariaeth y tu allan i'r GIG** | Gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol neu breifat, fel arfer wedi'u comisiynu gan y GIG. |
| **Cyfnod yr unigolyn** | Cyfanswm yr amser y mae person wedi'i dreulio yn yr ysbyty o'r amser y cafodd ei dderbyn am y tro cyntaf, gan gynnwys unrhyw symudiadau rhwng gwahanol leoliadau ysbyty. |
| **Cyfrifiad Chwarterol am Gleifion Mewnol Arbenigol ag Anableddau Dysgu (QLDSIC)** | Casgliad data chwarterol y mae byrddau iechyd Cymru yn ei gwblhau am breswylwyr Cymru sydd ag anabledd dysgu ac sydd mewn lleoliadau gofal arbenigol iechyd meddwl neu leoliadau arbenigol i gleifion ag anableddau dysgu yng Nghymru neu Loegr. |
| **Ysbyty diogel** | Lleoliad ysbyty sy'n darparu gofal a thriniaeth mewn amodau diogel i bobl sy'n peri lefel o risg na ellir ei reoli'n ddiogel mewn gwasanaethau agored neu lai diogel. |
| **Atal** | Dull rheoli datgelu lle nad yw niferoedd bach yn cael eu cyhoeddi, fel arfer er mwyn lleihau'r risg y gellir adnabod unigolion penodol o'r wybodaeth. |

| | |
|---|---|
| **Preswylydd yng Nghymru** | Unigolyn y mae ei breswylfa arferol yng Nghymru, hyd yn oed os yw'n derbyn gofal cleifion mewnol y tu allan i Gymru. |